Children in Wales
Plant yng Nghymru

E-friffiad i aelodau 09 Awst 2019
Members' e-briefing 09 August 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

Swyddi Gwag

Dewch o hyd i'r swyddi gwag diweddaraf ar wefan Plant yng Nghymru. Peidiwch ag anghofio - gall aelodau hysbysebu am ddim.

- Mae Plant yng Nghymru yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc a fyddai â diddordeb mewn ymuno â'n rhestr o weithwyr cyswllt. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed gan siaradwyr Cymraeg sydd â diddordeb mewn gwaith cyfranogiad. Cysylltwch â lynne.hill@childreninwales.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Hyfforddiant a digwyddiadau

11.09.2019	"Cadw Ein Plant Yn Ddiogel" Hyfforddiant i'r Person Dynodedig Ar Gyfer Amddiffyn Plant	Conwy
12.09.2019	"Deall Awtistiaeth a'r ffordd y gall effeithio'r pletnyn a'u teulu/gofalwyr"	Caerdydd
19.09.2019	LHDT a Datblygiad Plant	Conwy
24.09.2019	Pobl Ifanc a Chamddefnyddio Sylweddau	Caerdydd

25.09.2019	Coruchwyliaeth: Model ar gyfer Ymarfer	Caerdydd

Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.

Mae grantiau ar gael i helpu teuluoedd ar incwm isel brynu gwisg ysgol a chyfarpar

Gall plant sy'n derbyn a dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim derbyn grant gan Lywodraeth Cymru os ydynt:

- yn mynd i mewn dosbarth derbyn mewn ysgol gynradd
- ar ddechrau unrhyw gyfnod allweddol 2, 3 a 4 (cynradd ac uwchradd)
- yn 4, 7, 11 neu 14 oed mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion

Bydd plant ysgolion cynradd ac uwchradd â'r hawl i £125 ar gyfer pob cais. Gall plant sy'n dechrau blwyddyn 7 bellach wneud cais am £200 i helpu gyda chostau ychwanegol dechrau yn yr ysgol uwchradd.

Bydd y gronfa'n cynnwys gwisg ysgol ac offer chwaraeon, cyfarpar ar gyfer teithiau tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys dysgu awyr agored, ac offer ar gyfer gweithgareddau o fewn y cwricwlwm, megis dylunio a thechnoleg.

Sut i wneud cais
Cysylltwch â'ch awdurdod lleol: https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

---

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Adroddiad Cam 1 Bil Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol



Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi eu Hadroddiad cam 1 ar Fil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)..

Wedi archwilio egwyddorion y Bil a chasglu tystiolaeth drwy ymgynghoriad, mae gan y Pwyllgor nifer o argymhellion ar gyfer y Bil.

Roedd gan y Pwyllgor ugain argymhelliad, yn cytuno â'r prif egwyddorion, a hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod rhieni yn cael eu cefnogi'n ddigonol ac yn cael gwybod am y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y Bil.

Cam olaf craffu Cam 1 fydd trafod y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Medi 2019.

Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Ymchwiliad i Dlodi Tanwydd

Mae Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi agor ymgynghoriad ar dlodi tanwydd yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn dweud roedd gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi diwedd ar dlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018. Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn archwilio i sut mae tlodi tanwydd yn effeithio ar Gymru ac ymhle, pam na lwyddodd Llywodraeth Cymru i fodloni ei hamcanion, ac i ba raddau mae'r camau gweithredu presennol wedi helpu, ymysg pethau eraill.

Cewch fwy o wybodaeth ynghylch yr ymgynghoriad ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben **27 Medi 2019.**

Cod y Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer diogelu plant ar-lein



Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi ysgrifennu diweddariad ynglyn â datblygiad cod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i gadw pobl yn ddiogel ar-lein.

Cafodd y cod Dyluniad oed priodol: cod ymarfer ar gyfer gwasanaethau ar-lein, ei agor ar gyfer ymgynghori fis Ebrill, a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU ar 23 Tachwedd 2019.

Dywedodd yr ymgynghoriad gwreiddiol bod y cod wedi ei anelu at wasanaethau ar-lein; pethau fel "apiau, teganau cysylltiedig, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gemau ar-lein, gwefannau addysg, a gwasanaethau ffrydio, pan maent yn prosesu data plant. Mae'n gosod pedwar ar ddeg safon o ddyluniadau oed priodol ac yn gosod budd y plentyn fel y brif ystyriaeth wrth ddylunio a datblygu gwasanaethau ar-lein.

Mae diweddariad y Comisiynydd yn nodi nad rhwystro pobl ifanc rhag ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas yw'r nod, ac yn hytrach na'u cadw oddi wrth y byd digidol, byddant yn eu diogelu wrth iddynt ei ddefnyddio.

Adroddiad Comisiwn Metrig Cymdeithasol 2019

Mae'r Comisiwn Metrig Cymdeithasol wedi cyhoeddi adroddiad yn archwilio 'cyfradd a natur tlodi yn y DU heddiw'. Mae'r dadansoddiad yn dangos sut mae tlodi wedi newid rhwng 2000/01 a



heddiw.

Ymhlith y prif ganfyddiadau, mae'r adroddiad yn dangos: 'Bod 14.3 miliwn o bobl yn byw mewn tlodi yn y DU,' gan gynnwys '8.3 miliwn o oedolion mewn oed gweithio; 4.6 miliwn o blant; a 1.3 miliwn o oedolion oed pensiwn.

Dengys yr adroddiad nad yw'r gyfradd tlodi wedi newid llawer ers 2000/01 ar y cyfan, ac mai'r newidiadau mwyaf yw'r newid yn y gyfradd tlodi ymhlith gwahanol grwpiau. I ddechrau, roedd tlodi ymysg plant wedi lleihau, ond fe gododd eto, o 31% yn 2014/15 i 34% erbyn heddiw.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar wefan y Comisiwn Metrig Cymdeithasol.

Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

PLANT YNG NGHYMRU · CHILDREN IN WALES

Children in Wales
Plant yng Nghymru

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

Vacancies

Find the latest job vacancies on the Children in Wales website. Don't forget - members can advertise for free.

- Children in Wales would like to hear from anyone with experience of working with young people who would be interested in joining our list of associates. We would particularly like to hear from Welsh speakers interested in participation work. Please contact lynne.hill@childreninwales.org.uk for more information.

Training and events

11.09.2019	"Keeping Our Children Safe" Training for the Designated Person for Child Protection	Conwy
12.09.2019	"Understanding Autism and how it can impact ona child and family/carers"	Cardiff
19.09.2019	LGBT & Child Development	Conwy
24.09.2019	Young People & Substance Misuse	Cardiff
25.09.2019	Supervision: A Model for Practice	Cardiff

The full training and events schedule can be accessed from the Children in Wales website.

Click here for more information about our members' events and training.

Grants available to help families on low incomes buy school uniform and equipment

Looked after children and learners receiving free school meals can get a Welsh Government grant if they are:

- entering reception class in primary school
- at the start of any of the Key Stage 2, 3 and 4 (primary and secondary)
- aged 4, 7, 11 or 14 in special schools, special needs resource bases or pupil referral units

Primary and Secondary school children are entitled to £125 for each application.

Children entering Year 7 can now apply for £200 to help with the additional costs of starting secondary school.

The fund will cover school uniform and sports kit, equipment for out of school hours trips, including outdoor learning, and equipment for activities within the curriculum, such as design and technology.

How to apply

Contact your local authority: https://gov.wales/pupil-development-grant-access

Children, Young People and Education Committee: Abolition of Defence of Reasonable Punishment Bill Stage 1 report

The Children, Young People and Education Committee at the National Assembly for Wales has published their Stage 1 report on the Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Bill.

After examining the principles of the Bill and collecting evidence through consultation, the Committee has produced a number of recommendations on the Bill.

The Committee provided twenty recommendations, agreeing the general principles, and also calling for the Welsh Government to ensure that parents were adequately supported and informed of the changes made by the Bill.

As the final part of its Stage 1 scrutiny, the Bill will be debated in Plenary on the 17th September 2019.



Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee: Fuel Poverty Inquiry

The National Assembly for Wales Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee has opened a consultation on fuel poverty in Wales.

The Committee says that the Welsh Government had a statutory obligation to stop fuel poverty in Wales by 2018. The Committee's inquiry will examine how and where fuel poverty is affecting Wales, why the Welsh Government failed to meet its target, and how much the current action has helped, among other things.

You can find out more about the consultation on the National Assembly for Wales website.

The consultation will close on **27 September 2019**.

Information Commissioner's code for protecting children online



The Information Commissioner has written an update about the progress of the Information Commissioner's Office's (ICO) code to keep people safe online.

The code, Age appropriate design: a code of practice for online services, was opened for consultation in April, and will be presented to the UK Government on 23 November 2019.

The original consultation said that the code is aimed at online services; things like "apps, connected toys, social media platforms, online games, education websites, and streaming services, when they process children's data." It sets out sixteen standards of age appropriate design and makes the best interests of the child a

primary consideration when designing and developing online services.

The Commissioner's update states that their aim is not to prevent young people engaging with the world around them, and instead of excluding them from the digital world, it will protect them while they use it.



Social Metrics Commission Report 2019

The Social Metrics Commission has published a report examining the 'extent and nature of poverty in the UK today'. Its analysis shows how poverty has changed from 2000/01 to now.

Amongst the key findings, the report shows that: 'There are 14.3 million people in poverty in UK,' including '8.3 million working-age adults; 4.6 million children; and 1.3 million pension-age adults.'

The report shows that over all rates of poverty haven't changed much since 2000/01 and that the biggest changes have been the rates of poverty among different groups. Poverty amongst children dropped initially then raised, from 31% in 2014/15 to 34% now.

You can read the full report on the Social Metric Commission's website.

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.